## Grant Datblygu Disgyblion (GDD)

Pwrpas y **Grant Datblygu Disgyblion (GDD)** yw darparu cyllid i ysgolion er mwyn helpu i wella cyrhaeddiad ac ymlyniadau addysgol dysgwyr o aelwydydd incwm isel.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am gyllid Llywodraeth Cymru a diffiniad y grant yma: Grant Datblygu Disgyblion (GDd): Trosolwg | LLYW.CYMRU.

Yn **Ysgol Llan-y-pwll**, ein nod yw dysgu o arferion gorau yng Nghymru a thu hwnt drwy:

- Cynllunio ymyriadau sy'n canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad dysgwyr o aelwydydd incwm isel, monitro eu cynnydd yn rheolaidd a gwerthuso effaith yr ymyriadau hyn.
- Integreiddio cynlluniau ar gyfer defnyddio'r GDD yn effeithiol yn ein Cynllun Gwella Ysgol, gan sicrhau bod ein harferion yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac yn rhan o'n strategaeth ysgol gyfan.
- Cydbwyso dulliau ysgol gyfan gydag ymyriadau wedi'u targedu er mwyn sicrhau bod dysgwyr o aelwydydd incwm isel yn elwa ar gymorth unigol, tra'n cryfhau gallu'r ysgol i gefnogi pob dysgwr i gyflawni ei lawn botensial.

Mae pob ysgol yng Nghymru yn derbyn dyraniad o gyllid y Grant Datblygu Disgyblion yn seiliedig ar nifer y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM) a nifer y plant sy'n derbyn gofal (CLA).

## Ein dyraniad GDD ar gyfer 2026-2027

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-2027, mae Ysgol Llan-y-pwll wedi derbyn dyraniad o £9,200 mewn cyllid GDD/GDD Blynyddoedd Cynnar (EYPDG).

Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i barhau i gyflogi staff i ddarparu:

- Ymyriadau llythrennedd a rhifedd wedi'u targedu i gefnogi disgyblion unigol.
- Ymyriadau lles i ddiwallu anghenion unigol dysgwyr.
- Cymorth ychwanegol i helpu disgyblion i oresgyn rhwystrau i ddysgu a chyflawni eu llawn botensial.

Yn Ysgol Llan-y-pwll, defnyddir y cyllid hwn fel rhan o'n Cynllun Gwella Ysgol, sef cynllun cynhwysfawr a gytunwyd gan y Corff Llywodraethu ac a gaiff ei fonitro gan yr Awdurdod Lleol.

## Dyraniad y flwyddyn flaenorol: 2025-2026

Ein dyraniad GDd ar gyfer 2025-2026 oedd **£2,300**.

Defnyddiwyd y cyllid i gefnogi disgyblion unigol drwy ymyriadau wedi'u targedu a chymorth ychwanegol, gan ganolbwyntio ar eu hanghenion llythrennedd, rhifedd a lles. Cynhaliwyd hyn drwy sesiynau unigol (1:1) gan ddefnyddio rhaglenni megis SAFMEDS ac Unearthing.

## Ein hymrwymiad

Yn Ysgol Llan-y-pwll, mae gennym ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob un o'n dysgwyr. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y cymorth angenrheidiol yn cael ei dargedu'n ofalus i ddiwallu anghenion unigol pob plentyn, gan alluogi pob dysgwr i wneud cynnydd a chyflawni ei botensial.

Nid yw'n briodol i'r ysgol gyhoeddi dadansoddiad manwl o ymyriadau unigol, gan y gallai hynny arwain at adnabod disgyblion penodol.

Gall rhieni a gofalwyr fod yn dawel eu meddwl bod pob plentyn yn cael ei drin yn deg ac yn gyfartal yn Ysgol Llan-y-pwll. Mae'r holl wybodaeth sy'n ymwneud â defnydd y GDd yn cael ei thrin yn sensitif, yn ddisylw ac yn unol â'n hymrwymiad i gyfrinachedd disgyblion.